



Wrth iddynt wneud cynnydd

Patrymau a Llwybrau

Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch rannau o'r stori/chwaraewch rannau o'r stori oddi ar y CD-Rom
- Anogwch y plant i:
 - Archwilio hwyliau a theimladau gan ddefnyddio symudiadau syml, e.e. Sut maent yn teimlo pan fyddant yn cyrraedd y traeth o'i gymharu â phan fyddant yn gadael y traeth?
 - Archwilio gan ddefnyddio gweithrediadau dau sylfaenol – teithio, troi, neidio, ystum a llonyddwch – i greu cymal / motiff/dilyniant byr, e.e. cymal 'rhwbio eli haul ar y croen', neu gymal 'adeiladu castell tywod', neu gymal 'troelli a disgyn', neu gymal 'hercian o graig i graig'
 - Archwilio newidiadau o ran cyfeiriad a lefel i greu cymalau mwy diddorol, e.e. mynd â chymal 'neidio dros y tonnau' i'r llawr fel ei fod yn troi'n gymal 'chwarae/sblasio yn y tonnau'



Adnoddau

- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth'
- Lluniau o'r llyfr
- Clipiau sain o'r llyfr
- Bwcedi, rhofiau, basged bicnic, tywelion, creaduriaid y môr, peli glan môr, barcutiaid, balŵns
- Marcwyr dros dro
- Tywod, dŵr
- Rhaffau sgipio

Cwestiynau

- Sut gallwch chi wneud eich gweithrediadau'n fwy amlwg a'u gor-wneud nhw?
- Beth sy'n digwydd i'ch symudiadau wrth i'r gwylt gryfhau?
- Sut gallech chi ddangos y barcud yn torri'n rhydd o'r llinyn?
- Beth allai fod yn donnau dychmygol i chi neidio drostynt?
- Sut byddech chi'n teimlo wrth agor yr arheg pen-blwydd?

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, cysylltu
- Dychmygu, archwilio, mynegi, creu
- Ymlaen, yn ôl, i'r ochr, yn uchel, yn isel, gorwedd, penlinio, sefyll
- Yn yr awyr, yn y tywod, ar y llawr

Cyfleoedd i:

- ddatblygu symudiadau i ymateb i wahanol symbyliadau
- archwilio a mynegi hwyliau, teimladau a syniadau trwy symudiadau syml y gellir eu hailadrodd
- symud mewn gwahanol ffyrdd, gan greu siapiau amrywiol â'r corff a newid cyfeiriad a lefel

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwysrau
- bod y plant yn gweithio yn eu 'swigod'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn datblygu symudiadau i ymateb i wahanol symbyliadau?
- Yn archwilio ac yn mynegi hwyliau, teimladau a syniadau trwy symudiadau syml y gellir eu hailadrodd?
- Yn symud mewn gwahanol ffyrdd, gan greu siapiau amrywiol â'r corff a newid cyfeiriad a lefel?

gan amlaf

weithiau

Anogwch y plentyn i:

- ganolbwyntio ar ei hoff air
- ymarfer 'Wrth iddynt ddatblygu sgiliau Symud' gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol. Sut gallai addasu'r gweithrediadau hyn fel eu bod nhw'n cysylltu â'r stori?
- gwyllo plant eraill i gael syniadau. Gofynnwch beth mae'n ei hoffi? Sut gallai wneud hynny'n wahanol?
- trafod rhai o'r hwyliau a'r teimladau sydd yn y llyfr. Sut mae'n teimlo pan fydd yn llawn cyffro? Sut roedd yn gwyt o edrych ar y lluniau bod y plant yn llawn cyffro?

Anogwch y plentyn i:

- ddefnyddio mwy nag un cyfeiriad
- trafod siapiau'r corff, a thrafod pryd a sut gellid eu defnyddio
- perfformio ei weithrediadau am fwy o amser
- dychmygu beth sy'n digwydd rhwng rhai o'r digwyddiadau yn y stori, a chreu gweithrediadau i fynegi'r digwyddiadau hynny
- trafod ansawdd ei symudiadau, e.e. sut byddai cymal 'gwibio' yn wahanol i gymal 'hyrddio a chwyrlio', ac ati?

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Creadigol: Celf, crefft a dylunio – dylunio a gwneud cynnyrch syml, e.e. castell tywod a baneri
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd: Fi fy hun a phethau nad ydyn nhw'n fyw – cysgodion sy'n newid wrth i'r haul symud yn ystod y dydd
- TGCh: defnyddio 'probot' neu ddyfais debyg i ddod o hyd i greaduriaid